

FRANCIS, JONATHAN (1722/3 - 1801), gweinidog y Bedyddwyr

Enw: Jonathan Francis
Dyddiad geni: 1722/3
Dyddiad marw: 1801
Plentyn: Daniel Francis
Plentyn: Jonathan Francis
Plentyn: Enoch Francis
Rhiant: Mary Francis (née Evans)
Rhiant: Enoch Francis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog y Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Penyfai, Morgannwg; ail fab **Enoch Francis**, Castellnewydd Emlyn. Yn fuan wedi claddu ei dad (Chwefror 1740) aeth i Bontypŵl. Wedi iddo ddechrau pregethu anogwyd ef i fyned i goleg Trosnant. Daeth tua 1743 i gymdogaeth Penyfai a bwriadodd fyned i athrofa Bryste, ond nid aeth. Priododd yn 1744 â merch y Fagwyr, plwyf Llangyfelach, a myned yno i fyw. Er bod Penyfai a'r Fagwyr am ei urddo'n fugail, dewisodd ei urddo ym Mhontypŵl lle'r oedd yn aelod. Bodlonodd gymryd Penyfai a'r Fagwyr yn 1747, a symud o'r Fagwyr ymhen amser i ardal Penyfai. Tua 1788, ymneilltuodd 15 oblegid Arminiaeth ac ymsefydlu yn y Notais, ac ymhen amser aethant yn Undodwyr. Ordeiniwyd ei fab Enoch yn Exeter, a gwnaed dau fab arall, Jonathan a Daniel, yn gynorthwywyr i'w tad. Bu'r tad farw 13 Medi 1801.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 548-57

J. T. Griffith, *Hanes Eglwys Fedyddiedig Penyfai (1650-1889)* (1916)

J. Rufus Williams, *Hanes Athrofydd y Bedyddwyr yn Sir Fynwy yn nghyd â byr grybwylliad am athrofydd Hwlfordd a Llangollen* (Aberdŷr 1863), 12

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733689](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Rhys, W. J., (1953). FRANCIS, JONATHAN (1722/3 - 1801), gweinidog y Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FRAN-JON-1722>

frannu

Prefatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government